O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 275 (Cy. 45)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2012

Gwnaed	*6 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*19 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55), (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu'i wahardd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ac i'r gweithlu o ganlyniad i gynnal ymarferion argyfwng a diogelwch cyfnodol hanfodol.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Chwefror 2012 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2012.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r ymarferon sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod yr ymarferion" (*"exercise period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 03:00 o'r gloch ar 19 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 5 i'r Gorchymyn hwn.

.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarferion, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarferion, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarferion, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarferion, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 10 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarferion, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sydd â'i led yn 3.20 metr neu'n fwy fynd yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny mewn grym.

9. Mae darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Glanconwy i Forfa Conwy) 1990**(3)** drwy hyn yn cael eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 yn ystod yr adegau pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 mewn grym.

10. Mae darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Glanconwy i Forfa Conwy) 1985**(4)** drwy hyn yn cael eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 yn ystod yr adegau pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 mewn grym.

11. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy – Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2011**(5)** drwy hyn yn cael eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 yn ystod yr